

# Dysgu yn yr awyr agored

## Cwis iechyd a diogelwch

Cwblhewch y tabl canlynol drwy roi tic yn y golofn berthnasol i ddangos a ydych chi'n meddwl bod y gosodiad yn 'Gwir', 'Anwir' neu 'Mae'n dibynnu'.

|                                                                                                                 | Gwir                     | Anwir                    | Mae'n dibynnu            |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
| 1. Gall unrhyw un roi 'cymorth cyntaf'.                                                                         | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 2. Gall plant archwilio pelenni tylluanod, esgyrn, dannedd, nythod adar, ac ati.                                | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 3. Gall plant gasglu sbwriel.                                                                                   | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 4. Gallwch chi ddefnyddio unrhyw thermomedrau mewn lleoliad/ysgol.                                              | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 5. Dydy cael pwll dŵr ar safle lleoliad/ysgol ddim yn broblem.                                                  | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 6. Rhaid i chi beidio â chasglu grifft llyffant neu froga.                                                      | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 7. Cyfrifoldeb yr ymarferwyr yw iechyd a diogelwch ac fe allan nhw gael eu herlyn pe byddai damwain yn digwydd. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 8. Rhaid i blant wisgo menig plastig neu rwber wrth drin pridd neu drychfilod bychain.                          | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 9. Mae chwarae 'concyrs' wedi'i wahardd mewn lleoliadau/ysgolion.                                               | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |

# Dysgu yn yr awyr agored

|                                                                                                                                   | Gwir                     | Anwir                    | Mae'n dibynnu            |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
| 10. Mae lleoliadau/ysgolion bob amser yn brin o arian felly dylen nhw groesawu eitemau ail-law gan rieni/gofalwyr a diwydiant.    | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 11. Dylid annog plant i ddod â nythod adar a defnyddiau amgylcheddol eraill i leoliadau/ysgolion.                                 | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 12. Mae defnyddio gwrthrychau gwydr gyda phlant yn syniad da fel y gellir eu dysgu i ddefnyddio gwydr yn ddiogel.                 | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 13. Mae tyfu planhigion yn weithgaredd cwbl ddiogel.                                                                              | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 14. Gallwch chi dybio bod plant yn gwybod sut i ddefnyddio siswrn, cyllyll ac offer eraill yn ddiogel.                            | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 15. Gallai Arolygwr o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gychwyn gweithred allai arwain at garcharu'r Prif Swyddog Addysg. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 16. Rhaid i bob offer chwarae gael arwyneb diogelwch wedi ei osod oddi tano.                                                      | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |